

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Clerc Mai Owen 01407 740739 / 07795260139 [llanfairnb@hotmail.co.uk](mailto:llanfairnb@hotmail.co.uk) , [clerk@llanfairynneubwll.org](mailto:clerk@llanfairynneubwll.org)

### Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd yn Neuadd Bentref Caergeiliog am 7.00 pm ddydd Mawrth 16 Mai 2023

**Yn bresennol:** Cyng. Siân Enfys Jones – Cadeirydd

**Cynghorwyr:** Celfyn Furlong, Gwilym O. Jones, Gordon Owen, Lowri Owen, William Victor Owen, Sharon Parry, Evan Wyn Robertson a Dyfed Williams.

Hefyd yn bresennol: Mai Owen (clerc).

**1. Ymddiheuriadau:** Cyng. Einir Thomas a Gareth Thomas.

**2. Ethol Cadeirydd 2023 – 2024**

**Cadeirydd** - Gyda'r Cyng. Sharon Parry yn cynnig a'r Cyng. Gwilym O. Jones yn eilio etholwyd Cyng. Celfyn Furlong yn Gadeirydd.

**3. Ethol Is-Gadeirydd 2023-2024**

Is-gadeirydd - Gyda'r Cyng. Sharon Parry yn cynnig a'r Cyng. Gwilym O. Jones yn eilio'r etholwyd Cyng. Lowri Owen yn Is-gadeirydd.

**Cadeiriwyd gweddill y cyfarfod gan Cyng. Celfyn Furlong.**

**4. Ethol Cynrychiolwyr – etholwyd y canlynol:**

4.1 Cymdeithas Un Llais Cymru – Cyng. Celfyn Furlong.

4.2 Aelod Cyllid – Cyng. Dyfed Williams.

4.3 Ysgol y Llywodraethwyr Ysgol y Tywyn – Cyng. Dyfed Williams, Cyng. Sharon Parry (cynrychiolydd y Cyngor Sir)

4.4 Bwrdd Gofalwyr Towyn Trewan – Cyng. Celfyn Furlong a William Victor Owen.

4.5 Fforwm Cyswllt Cyngor Tref a Chymuned - Cyng. Celfyn Furlong a Gwilym O. Jones.

4.6 Pencampwr y Gymraeg – Cyng. Gwilym O. Jones.

**5. Datganiad o Ddiddordeb – Cyng.** Ken Taylor a Lowri Owen yn datgan diddordeb rhagfarnol yn eitem 11.2 a gadawodd y ddau'r cyfarfod cyn unrhyw drafodaeth ar y cais.

**6. Cofnodion y cyfarfod diwethaf**

Derbyniwyd cofnodion 18 Ebrill 2023 fel rhai cywir (Cynnig. Cyng. W.V. Owen, eilio Cyng. S. Parry. )

**7. Materion yn codi o'r cofnodion**

7.1 Chwarae Maes – Fe arolygwyd y meinciau gan Cyng. Einir Thomas, Celfyn Furlong a'r clerc ac roedd dwy ohonnynt mewn cyflwr gwael iawn ac efallai y byddai'n fwy cost-ffeithiol i gael rhai newydd yno. Byddai'r clerc yn chwilio am brisiau ar gyfer y cyfarfod

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Clerc Mai Owen 01407 740739 / 07795260139 [llanfairnb@hotmail.co.uk](mailto:llanfairnb@hotmail.co.uk) , [clerk@llanfairynneubwll.org](mailto:clerk@llanfairynneubwll.org)

nesaf. Roedd Cyng. Gwilym Jones oedd i wneud ymholiadau am y sied.

- 7.2 Diffibriliwr - Roedd Scottish Power wedi cytuno i ddarparu pris am roi cyflenwad trydan wrth Stad Rhen Ysgol.
- 7.3 Offer cyflenwi bagiau baw cŵn - roedd y clerc wedi prynu'r bagiau gwastraff cŵn ac wedi gwneud blwch ar gyfer Ffordd Minffordd.
- 7.4 Goleuadau Stryd a phalmentydd Ffordd Minffordd – cafwyd amcan gost o £45,380 + TAW gan CSYM am osod 5 golau stryd yno ond nid oedd ganddynt gyllid ganddynt ar gyfer hyn. Roedd y clerc i archwilio opsiynau pellach.

### 8. Materion Ariannol

Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.4.2023 i 30.4.2023 ynghyd â chysoniadau banc a datganiadau â manylion o'r cyfrifon.  
Cyfrif cyfredol £32,410.17, Cyfrif Cadw £3,953.99

- 8.1 Cofrestr asedau – cytunwyd i dderbyn y gofrestr newydd
- 8.2 Yswiriant – cytunwyd i dderbyn y dyfynbris gan BHIB ond byddai'r clerc yn gwneud ymholiadau parthed yswirio colledion cyflog pe bae'r clerc i ffwrdd yn sal ac ati.
- 8.3 Uwchraddio'r Wefan - cytunwyd i gadw'r safle mor syml â phosib, byddai'r clerc yn gwirio faint o 'hits' mae'n eu derbyn.
- 8.4 Taliadau i'w gwneud:

Cyflog	398.02	Yswiriant BHIB	£1808.16
Amazon	15.98	D.W. Williams	£180
GMS	£90		

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SCC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

### 9. Dogfennau Statudol – cafodd y canlynol eu hadolygu a'u diwygio yn ôl yr angen.

- 9.1 Rheolau Sefydlog – dim newid.
- 9.2 Rheoliadau ariannol - dim newid
- 9.3 Polisi Lwfans Aelodau – wedi'i ddiweddarau i adlewyrchu'r newidiadau a gyflwynwyd gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol.
- 9.4 Aseiad Risg – i'w gylchredeg.
- 9.5 Cod Ymddygiad – dim newid.
- 9.6 Cofrestr Lletygarwch – Dim byd i'w gynnwys ar y Gofrestr ar gyfer 2022/23.

### 10. Gohebiaeth

- 10.1 Ymgynghoriad ar lwybr troed gwyro arfaethedig Rhif 1 - dim gwrthwynebiad

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

Clerc Mai Owen 01407 740739 / 07795260139 [llanfairnb@hotmail.co.uk](mailto:llanfairnb@hotmail.co.uk) , [clerk@llanfairynneubwll.org](mailto:clerk@llanfairynneubwll.org)

---

- 10.2 Un Llais Cymru - hyfforddiant
- 10.3 Archwilio 2022/23 - nodwyd
- 10.4 Ymgynghoriad: Ardal o Gynllun Rheoli Harddwch Naturiol Eithriadol:
- 10.5 Ymgynghoriad; Cynllun Rheoli Cyrchfan Môn:
- 10.6 Llythyr Newyddion Taith i Saith
- 10.7 Canllaw Cynghorwyr Da i Gyflogaeth

### 11. Ceisiadau Cynllunio

#### 11.1 FPL/2023/96 Fferm Ysbylldir, Caergeiliog

Cais llawn ar gyfer ailosod y mast 15m uchel presennol gyda mast uchel newydd 17.5m ynghyd ag ail-leoli a lleoli antenâu a datblygiad cysylltiedig ar y tir - dim gwrthwynebiad.

#### 11.2 FPL/2023/68 Ystâd Parc Seland Caergeiliog

Cais llawn ar gyfer codi 8 annedd fforddiadwy, adeiladu gwaith cerbydau newydd a gwaith cysylltiedig - Roedd yr Aelodau'n pryderus am y mynediad i'r datblygiad gan nad oedd ffordd dda ati drwy Zealand Park.

Gadawodd Cyng. Ken Taylor a'r Cynghorydd Lowri Owen y cyfarfod cyn trafod yr eitem hon.

### 12. Penderfyniadau Cynllunio

#### 12.1 HPP/2023/88 29 Bryn Trewan, Caergeiliog

Cais llawn ar gyfer codi wal gefn - cais wedi'i dynnu'n ôl.

### 13. Adroddiadau Aelodau

#### 13.1 Dywedodd y Cyng. Sharon Parry fod Siop Spar newydd wedi agor yn Llanfihangel yn Nhowyn.

#### 13.2 Awgrymodd y Cyng. Celfyn Furlong fod y Cyngor Cymuned mewn sefyllfa ariannol gryfach i gefnogi'r ymrwymïadau hirdymor sy'n gysylltiedig â Neuadd Bentref Caergeiliog a gofynnodd a fyddai'r Cyngor Cymuned yn ystyried cymryd yr awenau o redeg yr adeilad i'r dyfodol. Cytunwyd y byddai'r clerc yn gofyn i Bwyllgor Rheoli'r Neuadd y Pentref am eu barn.

### 14. Dyddiad y cyfarfod nesaf - 20 Mehefin 2023.